

Canllaw i
**GEFNOGI DYSGWYR
AG ANGHENION
GOFAL IECHYD
MEWN YSGOLION**



Mae Awdurdod Lleol Caerdydd yn annog dysgwyr, rhieni, ysgolion a gweithwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth.





Diben y canllaw hwn

Diben y canllaw hwn yw eich helpu i ddeall a bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r cymorth y bydd ei angen ar eich plentyn yn yr ysgol i ddiwallu ei anghenion gofal iechyd.

Ar ryw adeg, bydd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr angen gofal iechyd byrdymor y gellir ei reoli'n hawdd gan yr ysgol gyda rhai addasiadau a chynllunio ychwanegol. Fodd bynnag, mae nifer bach o ddysgwyr sydd ag angen gofal iechyd sy'n cael effaith hirach ac sy'n gofyn am ragor o gynllunio a chymorth drwy Gynllun Gofal Iechyd Unigol (CGIU). Dylai bodloni'r gofynion y CGIU sicrhau bod gan ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd fynediad at addysg lawn sy'n cynnwys mynd ar deithiau a chymryd rhan mewn addysg gorfforol.

Cydweithio fel tîm

Yn aml gall cefnogi dysgwyr gyda'u hanghenion gofal iechyd fod mor syml â'u helpu i gymryd cwrs o feddyginiaeth, ond i eraill gall fod yn fwy cymhleth. Mae'n bwysig, ni waeth beth yw'r angen gofal iechyd, fod rhieni, yr ysgol a'r dysgwr yn gweithio fel tîm i gynllunio a pharatoi'r gofal y bydd ei angen ar y dysgwr. Gall y tîm hwn hefyd gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol eraill fel nyrs arbenigol neu bediatregydd.



Beth yw Egwyddorion cydweithio?

- Rhaid i'r dysgwr fod wrth wraidd y broses bob amser wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chynllunio'r gofal y bydd ei angen arnynt yn yr ysgol.
- Dylai ysgolion sicrhau bod eu Polisi Anghenion Gofal Iechyd yn cael ei rannu â theluoedd a'u bod yn cymryd amser i esbonio'r polisi hwn i chi os oes angen.
- Dylai ysgolion nodi prif bwynt cyswllt y gallwch chi a'ch plentyn ei ddefnyddio i drafod eu hanghenion gofal iechyd a diwygio cynlluniau os oes angen.
- Ni ddylai ysgolion anwybyddu unrhyw farn y rhieni na'r dysgwr, nac unrhyw gyngor gofal iechyd a roddir i'w helpu i ddiwallu anghenion plant/pobl ifanc yn eu hysgol.
- Dylai ysgolion weithio ar y cyd ag unrhyw weithwyr gofal iechyd proffesiynol dan sylw a sicrhau bod niferoedd digonol o staff wedi'u hyfforddi'n briodol i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Os oes angen hyfforddiant i gefnogi'r anghenion gofal iechyd (e.e. tiwbiau bwydo) bydd tîm priodol y GIG yn darparu hyn.



Beth yw Cynllun Gofal Iechyd Unigol CGIU?

Dylai Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CGIU) nodi'r hyn sydd ei angen i allu cefnogi dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn effeithiol tra byddant yn yr ysgol. Ni fydd angen CGIU ar bob plentyn/person ifanc sydd ag angen gofal iechyd. Dylid rhoi CGIU ar waith pan fydd gan ddysgwr anghenion gofal iechyd y mae angen eu cefnogi yn ystod y diwrnod ysgol. Gallai hyn fod yn gefnogaeth/ymyrraeth reolaidd i gynnal cyflwr a/neu pan fo risg uchel y gallai sefyllfa frys ddigwydd.

Dylid ysgrifennu'r CGIU gyda chymorth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os oes angen a gyda'r teulu.

Dylai'r CGIU fod ar gael yn rhwydd i unrhyw un y gallai fod angen iddo gyfeirio ato, wrth gynnal cyfrinachedd a bod yn sensitif i farn y dysgwr.

Rhoi meddyginiaeth

Rhaid i rieni ddarparu unrhyw feddyginiaeth a nodir yn y CGIU Rhaid i bob meddyginiaeth a ddarperir:

- Beidio â bod heibio'r dyddiad darfod
- Cael ei labelu'n gywir gyda'r label gwreiddiol y fferyllfa ac yn y cynhwysydd gwreiddiol.
- Cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer dos, gweinyddu a storio

Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi meddyginiaeth gartref y tu allan i oriau ysgol. Y rhiant sy'n gyfrifol am waredu unrhyw feddyginiaethau diangen. Bydd ysgolion yn anfon unrhyw feddyginiaeth adref sydd heibio'i dyddiad darfod neu nad oes ei hangen mwyach.





Rhannu gwybodaeth gofal iechyd

Gall rhannu gwybodaeth feddygol fod yn fater sensitif a rhaid i chi sicrhau eich bod chi a'ch plentyn yn hapus gyda phwy a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu. Os nad ydych yn hapus i'ch gwybodaeth gael ei rhannu, mae'n bwysig eich bod yn siarad â'r ysgol i ddod i gytundeb. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol y gallai unrhyw gyfyngiadau ar rannu gwybodaeth effeithio ar allu'r ysgol i gefnogi'ch plentyn yn ddiogel.

Wrth ofalu am eich plentyn yn yr ysgol...

Mae'n annerbyniol:

- Atal dysgwyr ag anghenion gofal iechyd rhag mynychu ysgolion, oni bai bod tystiolaeth y byddai'n debygol o achosi niwed i'r plentyn, neu i eraill.
- Ei gwneud yn ofynnol i rieni fynd ar dripiâu ysgol neu unrhyw weithgareddau oddi ar y safle at ddiben gweinyddu meddyginiaeth neu roi cymorth i'w plentyn, gan gynnwys mynd i'r toiled.
- Atal dysgwyr rhag cyrraedd eu hanadlydd/meddyginiaeth arall
- Atal plant rhag yfed, bwyta neu fynd i'r toiled neu gael egwyl pan fo angen hynny arnynt er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd. Ni ddylai ysgolion byth ofyn i ddysgwr adael yr ystafell ddosbarth neu'r gweithgaredd os oes angen iddo gymryd meddyginiaeth nad yw'n bersonol neu gael bwyd yn unol â'i anghenion iechyd.

Gellir dod o hyd i ganllawiau llawn ar anghenion gofal iechyd yma:

www.learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs

Yng Nghaerdydd, gall ysgolion hefyd gysylltu â'r Tîm Cynhwysiant Anabledd i gael cyngor ar gynnwys dysgwyr ag anghenion Gofal Iechyd. Gall rhieni hefyd gysylltu â'r Tîm os oes ganddynt unrhyw bryderon neu'n dymuno trafod, ond y lle gorau i ddechrau sgwrs am anghenion eich plentyn yw gyda Chydlynnydd ADY yr ysgol

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gallwch gysylltu â'r Tîm Anabledd ar 02920 872 731